

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
12/9/2016**

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r aelodau a hefyd i Huw Antur o Bartneriaeth Penllyn.
2. Nid oes cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4/7/16.
5. Materion yn codi o gyfarfod Gorffennaf:
 - a. Ategwyd fod y Neuadd a'r cyffiniau wedi cael eu cofrestru gyda'r Gofrestra Tir.
 - b. Derbyniwyd ymateb CADW i'r pryder am gyflwr Eglwys Santes Gwawr a chytunwyd i ofyn am ddiweddariad gan Swyddog Cadw yn y Parc Cenedlaethol.
 - c. Cytunwyd i drafod mater y goeden wywedig yn y fynwent yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd hefyd bod angen cynyddu nifer o weithiau y mae gwair y fynwent yn cael ei dorri – y mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i drefnu i dorri gwrych y fynwent.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd yn arbennig am ymestyn y cyfyngiad 40mya ar hyd y ffordd i gyfeiriad Llangynog, a'r problemau gyda cheir yn parcio ac yn cau'r ffordd yn ardal y Clwb Hwyllo. Cytunwyd i fynegi teimladau'r Cyngor wrth ymateb, sef
 - a. Angen ymestyn 40mya hanner ffordd fyny allt Tŷ'n Gwrych, yn arbennig yn nhebygolrwydd bydd y rheilffordd yn croesi'r ffordd.
 - b. Angen ail-baentio'r llinellau melyn yn ardal y Clwb Hwyllo er mwyn diogelwch a galluogi cerbydau argyfwng deithio i gyfeiriad Llangywer. Mae prysurdeb yr ardal hon wedi cynyddu eto eleni gyda'r datblygiadau yn y Clwb Hwyllo a gweithgareddau yn ymwneud â'r rheilffordd.
7. **Materion ariannol:**
 - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a monitrowyd y gwariant a chael y sefyllfa'n dderbyniol.
 - b. Derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau pensiwn y Cyngor fel Cyflogwr
 - c. Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud yr ail daliad o'r Praesept.
 - d. Awdurdodwyd talu am waith cynnal y fynwent pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.
 - e. Cytunwyd nad ydyw'r llog yn ei gwneud hi'n werth agor Cyfrif Cadw o'r newydd.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Nodwyd fod angen tocio gwrych ar ffordd Rhydwen ar gyfer y capel at bont Fedw. Cynigodd Geraint Roberts drefnu bod y gwaith yn cael ei wneud, a chytunodd Alan Jones Evans godi'r mater gyda Chyngor Gwynedd.

9. Partneriaeth Penllyn:

- a. Arwyddodd y Cadeirydd y Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.
- b. Derbyniwyd adroddiad Huw Antur a soniodd am waith Partneriaeth Penllyn ar hyd y saith mlynedd diwethaf. Soniodd hefyd am Gwmni Pum Plwy Penllyn a gododd yn ei sgil dair blynedd yn ôl. Diolchwyd yn gynnes iawn i Huw Antur am ei gyflwyniad ac am ei waith a llongyfarchwyd Partneriaeth Penllyn ar ei lwyddiant ar hyd y blynyddoedd, ac yn arbennig am adfer Canolfan Henblas.

10. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri:

- a. Cytunwyd i arddangos poster "Galwad am ddarpar safleoedd".
- b. Trafodwyd yr Adolygiad i Gynllun Datblygu Lleol Eryri.
- c. Derbyniwyd cais i wneud asesiad o fannau agored, ond nid oedd manau agored wedi eu nodi ar gyfer Llangywer na Rhosygwaliau ar fap Parc Cenedlaethol Eryri.
- d. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i ail arllwysfa cynllun trydan dŵr Afon Glyn.
- e. Cymeradwywyd cais NP5/70/117E sef codi sied amaethyddol, Troed y Glyn, Llangywer.

Cyngor Gwynedd:

- a. Cefnogwyd cyfyngiad cyflymder wrth Bont Mwnwgl y Llyn.
- b. Cais am ymateb parthed biniau halen; cytunwyd i fynegi ein bod yn parhau i ddisgwyl am drafodaeth bellach ar y mater gydag aelod o Gyngor Gwynedd.
- c. Derbyniwyd rhaglen waith Gwasanaeth y Priffyrdd

UN LLAIS:

Nodwyd derbyn rhaglen hyfforddiant a chynigion i'r gynhadledd

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 14/11/16

- a. *Amser gorffen: 9.30*